# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 7 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Prosiect y Ddraig Goch

**C8 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar brosiect y Ddraig Goch yn yr Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn, Sain Tathan? (OAQ15473) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn, sydd wedi penodi ymgynghorwyr i ddylunio a chomisiynu cyfleuster newydd ar ei chyfer. Mae'n bosibl y cyflwynir cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol yn ddiweddarach eleni.

### Creu Swyddi ym Mhowys

**C9 Nick Bourne:** Sut y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at greu swyddi ym Mhowys? (OAQ15567) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn falch fod cyfradd cyflogaeth Powys 10 y cant yn uwch na chyfradd Cymru gyfan a bod y gyfradd diweithdra yn is na'r gyfradd ar hyd a lled Cymru. Lansiais strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, 'Cymru'n Ennill', ar 28 Ionawr, ac mae'r strategaeth honno yn cydnabod yr angen i gefnogi Cymru wledig. O Ebrill 2002, byddwn yn cyflwyno cynllun grantiau buddsoddi newydd, symlach i fusnesau bach a chanolig eu maint, a fydd ar gael ledled Cymru. Bydd cyfle felly i fusnesau bach a chanolig eu maint ledled Powys gael grantiau o hyd at £50,000.

*Atebwyd cwestiwn 10 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Technoleg Celloedd Tanwydd

**C11 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r diwydiant moduro o safbwynt technoleg celloedd tanwydd yng Nghymru? (OAQ15525)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu unrhyw drafodaethau penodol gyda'r diwydiant moduro ynglŷn â thechnoleg celloedd tanwydd. Mae'r dechnoleg hon yn rhan o'r strategaeth ehangach sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd i gefnogi'r newid i drafnidiaeth ffordd garbon-isel. Mae'r materion hyn yn cael sylw ar sail y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y strategaeth ddrafft o dan y teitl 'Powering Future Vehicles'. Mae'r Cynulliad yn cyfrannu tuag at hynny i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynnwys, gan ein galluogi i ymateb i'r cyfleoedd newydd.

## Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

**C12 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y gymhariaeth o dargedau'r busnesau y bwriedir eu dechrau ar gyfer 2001-02 yn y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth a'r alldro gwirioneddol hyd yma? (OAQ15530)

**Prif Weinidog Cymru:** O'r targed o 4,600 o fusnesau newydd sydd i'w sefydlu gyda chymorth, yr oedd 2,136 wedi eu creu erbyn diwedd Rhagfyr 2001.

Mae sicrhau cynnydd yng nghyfradd y busnesau newydd a sefydlir yn darged allweddol yn y tymor hwy, a gynhwyswyd yn 'Cymru'n Ennill', ac yr ydym yn benderfynol o ymgyrraedd ato. Er ei bod yn bosibl na lwyddir i gyrraedd y targed eleni, rydym yn hyderus y caiff hyn ei ddatrys cyn bo hir ac y gwneir iawn amdano dros y blynyddoedd dilynol, ac y bydd targed y cynllun drwyddo draw yn cael ei gyflawni.

## Prosiectau Isadeiledd Amcan 1

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gynnydd prosiectau isadeiledd Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ15566)

**Prif Weinidog Cymru:** O fewn y rhaglen Amcan 1 hon, mae cyllid cyfyngedig ar gael ar gyfer isadeiledd. Fodd bynnag, hyd yma, mae £4 miliwn o gymorth grant wedi'i rwymo ar draws nifer o'r mesurau isadeiledd, sy'n cynnwys ynni, gwastraff, trafnidiaeth a datblygu safleoedd. Mae'r holl fesurau isadeiledd yn agored i fidiau ar eu cyfer gael eu datblygu a'u cyflwyno am ystyriaeth briodol.

## Cysylltiadau Rheilffordd o fewn Canol De Cymru

**C14 Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch gwariant Amcan 1 ar gynlluniau i wella cysylltiadau rheilffordd o fewn Canol De Cymru? (OAQ15468) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** O fewn y rhaglen Amcan 1 hon, mae mesur penodol ar gyfer gwelliannau ym maes trafnidiaeth, er mai cymorth cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd. Bellach, mae'r strategaeth ranbarthol ar gyfer seilwaith wedi'i chwblhau, a byddwn yn gwahodd ceisiadau o dan flaenoriaeth 6, mesur 1 (seilwaith trafnidiaeth). Derbyniwyd ceisiadau a datganiadau o ddiddordeb gan National Express ccc (y cwmni sy'n rhedeg trenau) a chan y consortiwm o awdurdodau lleol, Consortiwm Teithio Cyflym Integredig De Cymru (SWIFT). Nod strategaeth reilffyrdd SWIFT yw ceisio gwneud y trenau'n fwy dibynadwy, gwella'r amserlen a chynnig mwy o wasanaethau, gan gynnwys y rheini drwy Bontypridd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo adnoddau ar gyfer y gwelliannau hyn, a fyddai'n bodloni'r gofynion o safbwynt arian cyfatebol.

## Alcoa

**C15 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr opsiynau i ddarparu cyflogaeth ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt gan gyhoeddiad Alcoa ei fod yn cau ei ffatri yn Nolgarrog ym mis Mehefin? (OAQ15532)

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn ymweld â Dolgarrog yfory i gael y diweddaraf am y datblygiadau yno, ond yr wyf eisoes wedi ei gwneud yn glir y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig pob cymorth posibl.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Asesiad Gwariant Safonol

**C2 David Davies:** A fydd awdurdodau lleol yn cael digon o arian i wario hyd at eu hasesiad gwariant safonol llawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol? (OAQ15562) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol y Gweinidog.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ar lefel Cymru, mae cyfanswm yr asesiadau gwariant safonol yn cyfateb i'r cyllidebau safonol a ragdybir, ond dull o bennu sut mae dosbarthu cyllid rhwng awdurdodau yw'r asesiadau hyn, nid dull o bennu beth ddylai eu cyllidebau fod. Mae'r awdurdodau yn gyfrifol am osod eu cyllidebau eu hunain.

### Blaenoriaethau Cyllidebol

**C3 Kirsty Williams:** Sut y mae'r Gweinidog yn cymryd adroddiad Wanless i ystyriaeth wrth bennu blaenoriaethau cyllidebol? (OAQ15513) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Adroddiad interim yw adroddiad Wanless ar hyn o bryd ac mae'n destun ymgynghori. Y bwriad yw y bydd ei adroddiad terfynol yn dylanwadu ar benderfyniadau adolygu gwariant Llywodraeth y DU, a bydd hynny'n bwydo drwodd i gyllideb y Cynulliad yn y ffordd arferol. Bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd canfyddiadau'r adroddiad terfynol i ystyriaeth fel sy'n briodol wrth iddi lunio ei chynlluniau gwariant yn barod i'w trafod yng nghylch cynllunio cyllideb y Cynulliad yn ddiweddarach eleni.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Menter Gwerth Gorau

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'r arbedion o ganlyniad i'r fenter Gwerth Gorau yn fwy na chostau gweithredu a gwerthuso'r cynllun i awdurdodau lleol? (OAQ15557) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol y Gweinidog.***

**Edwina Hart:** Ni ragdybiwyd erioed y byddai manteision llawn y fenter Gwerth Gorau yn cael eu medi yn y ddwy flynedd gyntaf. Fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod costau arolygu Gwerth Gorau a chydymffurfio â'r gyfundrefn yn rhy uchel o'u cymharu â'r manteision a oedd yn deillio o'r broses ar y dechrau. Dyna pam y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r rhaglen er mwyn gwella ar gyfer Cymru, mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chyrff eraill sydd wedi'u cynrychioli ar grŵp prosiect Gwerth Gorau y Cyngor Partneriaeth.

Yr wyf yn llwyr ddisgwyl i'r buddsoddiad yn y drefn newydd hon dalu amdano'i hun lawer gwaith drosodd ar ffurf gwasanaethau cost-effeithiol, uchel eu safon.

### Adroddiad Wanless

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ynghylch effaith adroddiad Wanless ar gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ15515)

**Edwina Hart:** Bydd Derek Wanless yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol mewn pryd i ddylanwadu ar adolygiad gwariant 2002 Llywodraeth y DU. Adolygiad gwariant gan Lywodraeth y DU yw hwn. Mater i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw cyfrannu at y broses ar ran Cymru. Yr wyf yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd i drafod hyn a materion eraill. Bydd cyllideb y Cynulliad yn cael ei haddasu yn sgîl yr adolygiad gwariant yn unol â'r setliad i adrannau gwario Whitehall.

## Tanwario Cyllidebol yn yr Awdurdodau Lleol

**C11 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu o'r trafodaethau y mae'n eu cael â'r awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â thanwario cyllidebol? (OAQ15504) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol y Gweinidog.***

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn casglu gwybodaeth am y gwariant y cyllidebwyd ar ei gyfer gan yr awdurdodau ac am eu canlyniadau gwirioneddol, er mwyn gallu adlewyrchu hynny yn fformiwla'r asesiad gwariant safonol ar gyfer y setliad blynyddol ac i greu a gwella dangosyddion perfformiad. Mae'r wybodaeth hefyd yn rhoi inni ddangosyddion am wariant a blaenoriaethau llywodraeth leol. Fodd bynnag, mater i'r awdurdodau lleol unigol, nid y Cynulliad, yw rheoli eu cyllideb, ac mae hynny'n cynnwys tanwario cyllidebol.

## Gwasanaeth Ambiwlans Awyr

**C12 Nick Bourne:** Pa arian ychwanegol un-tro a roddodd y Gweinidog i'r gwasanaeth iechyd gwladol i ariannu'r gwasanaeth ambiwlans awyr? (OAQ15510)

**Edwina Hart:** Yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, hoffwn gadarnhau bod gwasanaeth ambiwlans awyr Cymru wedi derbyn £70,000 gan Lywodraeth y Cynulliad i dalu costau'r parafeddygon arbenigol sy'n gweithio i'r gwasanaeth hwn.

## Dyraniadau Gwariant Ychwanegol

**C13 Gareth Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cael gwybod gan y Trysorlys am unrhyw ddyraniadau gwariant ychwanegol a roddwyd i Gymru ers dechrau mis Ionawr? (OAQ15561)

**Edwina Hart:** Derbyniais hysbysiad am addasiadau gwerth £1.178 miliwn i gyd yn 2002-03, ac £1.767 miliwn yn 2003-04. Addasiadau canlyniadiol fformiwla Barnett yw'r rhain ac maent yn deillio o'r cynnydd yn nherfyn gwariant adrannol yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd y cynnydd hwn yn cael ei ddyrannu i brif grŵp gwariant addysg a dysgu gydol oes a byddaf yn hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol amdano y tro nesaf y byddaf yn cyflwyno newidiadau i'r gyllideb mewn Cyfarfod Llawn.

## Cynigion am Fentrau Cyllid Preifat

**C14 Alun Cairns:** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer caniatáu i gynigion am fentrau cyllid preifat gael eu gwneud ar sail ad hoc? (OAQ15546)

**Edwina Hart:** Rhoddais y cyfarwyddyd yn fy natganiad ar 13 Rhagfyr am fuddsoddi drwy bartneriaeth yng Nghymru. Byddaf yn trafod bidio gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol agos.

## Defnydd o Bartneriaethau Preifat-Cyhoeddus yn y Dyfodol

**C15 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus i hybu defnyddio partneriaethau preifat-cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ15508)

**Edwina Hart:** Cynhaliais ymgynghoriad maith ar y defnydd o bartneriaethau preifat-cyhoeddus a'r fenter cyllid preifat yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus. Gosodais y cwrs yn fy natganiad at 13 Rhagfyr am fuddsoddi drwy bartneriaeth yng Nghymru. Cyfarfûm â Chyngres Undebau Llafur Cymru ychydig cyn y Nadolig. Byddaf yn trafod materion cyllid preifat gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol agos a byddaf yn cwrdd â chyrff cyhoeddus eraill i drafod y mater hwn pan fo'n briodol.